

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

Inclusion Service
Gwasanaeth Cynhwysiant



Strategaeth Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth (ASA)

2017-20

Nichola Jones
Pennaeth Cynhwysiant ac
Anabledau

Cyflwyniad

- 1.1 Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Strategol mewn ymateb i'r hyn y mae pobl sydd ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr wedi ei ddweud sy'n bwysig iddynt. Rydym hefyd wedi gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid i nodi rhai themâu a gweithredoedd â blaenoriaeth allweddol a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant ac oedolion sydd ag awtistiaeth.
- 1.2 Nod y Cynllun Gweithredu Strategol yw bod:
'Anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag awtistiaeth, a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu deall, eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant eu hunain ac i fyw bywydau cyflawn.'
- 1.3 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cynnwys nifer o ofynion penodol ar awdurdodau lleol i sefydlu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth ar waith i ddiwallu anghenion pobl yn Sir Benfro.
- 1.4 Datblygiad allweddol yw sefydlu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol newydd.
- 1.5 Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol hwn yn nodi'n fanwl y camau gweithredu a gymerir, gan gynnwys sut y cânt eu mesur a'u monitro. Rydym am weld gwahaniaeth gwirioneddol yn y gwasanaethau, y gofal a'r cymorth sydd ar gael i bobl sydd ag awtistiaeth ac felly bydd monitro manwl o gynydd a darpariaeth yn hanfodol.

Diffinio Awtistiaeth

- 1.6 Byddwn yn parhau i ddefnyddio diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd¹ o awtistiaeth:

“Defnyddir y term anhwylderau sbectrwm awtistiaeth (ASA) i ddisgrifio'r grŵp o anhwylderau datblygol treiddiol a nodweddir gan anawsterau rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu, a chan ystod cyfyngedig, stereoteipiedig, ailadroddus, o ymddygiad a diddordebau.”

Mae'r sbectrwm awtistiaeth yn eang iawn ac yn gallu effeithiol pobl gyda phob lefel o allu. Er nad oes modd gwella ASA, gall cymorth ac ymyrraeth addas helpu pobl i gyflawni eu potensial. Mae'r Cynllun Gweithredu

Strategol ar gyfer pobl ar bob rhan o'r sbectrwm ac yn cynnwys unigolion a allai hefyd fod ag anabledd dysgu arall, ynghyd â'r rhai â diagnosis o Syndrom Asperger. Mae'n anodd amcangyfrif faint o bobl sy'n cael eu heffeithio gan ASA gan fod astudiaethau'n amrywio. Mae'r dystiolaeth gyfredol yn awgrymu bod oddeutu 1% o'r boblogaeth gyfan neu uwch yn cael eu heffeithio. Felly, yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad Cymru 2011, amcangyfrifir bod nifer y bobl ag awtistiaeth yng Nghymru oddeutu 31,000, er efallai na fydd gan lawer o'r rhain ddiagnosis ac ni fyddant o reidrwydd yn hysbys i wasanaethau. Mae'r term Anhwyllder Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) yn gyfnewidiol â'r term Cyflwr ar Sbectrwm Awtistiaeth (CSA). Mae Sir Benfro'n cydnabod y ddau derm ond at ddibenion y strategaeth hon, wedi mabwysiadu 'ASA' yn unol â chanllawiau NICE.

- 1.7 Bydd gan lawer o bobl ag awtistiaeth anabledd dysgu arall hefyd. Efallai bod gan eraill gyflyrau iechyd meddwl a chorfforol. Mae ymchwil yn nodi mai'r problemau mwyaf cyffredin yw anawsterau cysgu, problemau gastroberfeddol, clust ludiog, epilepsi, pryder, iselder, dyspraxia, dyslecsia, anhwylder gorfodaeth obsesiynol, diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Gall presenoldeb awtistiaeth yn ogystal â chyflwr arall arwain at anawsterau cymhleth nad ydynt yn ymateb i ddulliau traddodiadol. Felly mae'n bwysig bod ymarferwyr yn nodi awtistiaeth a'r cyflwr arall sy'n bodoli hefyd ac yn cynllunio'r gofal a'r cymorth yn unol â hynny er mwyn diwallu eu hanghenion orau.
- 1.8 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd canllaw y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ar awtistiaeth. Mae NICE yn gorff a gydnabyddir yn eang, sy'n darparu cyngor a gwybodaeth awdurdodol ar ystod o faterion iechyd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae NICE wedi llunio nifer o ganllawiau ar ddiagnosis a rheoli awtistiaeth mewn plant. Pwrpas canllaw NICE yw hybu a mesur gwelliannau ansawdd a disgrifio sut y dylai gwasanaeth da edrych. Dylai byrddau iechyd ystyried y canllaw wrth gynllunio gwasanaethau awtistiaeth oherwydd dyma'r meincnod a dderbynnir o'r hyn y dylai gwasanaethau da anelu at ei ddarparu. Mae rhagor o wybodaeth am ganllawiau awtistiaeth NICE i'w gweld ar y wefan www.ASDinfoWales.co.uk neu'n uniongyrchol gan NICE ar <http://pathways.nice.org.uk/pathways/autism>. Yn ychwanegol at y dogfennau cyngor technegol, mae NICE⁴ hefyd wedi cynhyrchu gwybodaeth i deuluoedd a gofalgwyr plant a phobl ifanc i fynd gyda'r canllaw clinigol hwn.

2 Datblygiadau sydd wedi digwydd yn Sir Benfro.

Ers datblygu Cynllun Gweithredu Strategaeth Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth yn 2008, yn Sir Benfro rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran darparu gwelliannau i fywydau plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys:

2.1 **Iechyd** (*Dr M. Simmonds*)

Mae asesiadau nawr yn cynnwys nifer o rannau megis trafodaethau amlddisgyblaethol, clinigau asesu lle ymglymerir â hanes manwl gan rieni neu warcheidwaid ac ymarfer wyneb yn wyneb strwythuredig gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc.

Mewn rhai achosion, mae angen cynnal arsylwadau ysgol neu asesiadau mwy helaeth fel y Rhaglen Arsylwi Diagnostig Awtistiaeth (ADOS).

Rhoddir adborth o asesiad y tîm amlddisgyblaethol a thrafodir gyda phob teulu, gan gyfeirio at wasanaethau ychwanegol a/neu argymhellion fel y nodwyd.

Darperir DVD a Llawlyfr Cymru Gyfan i Rieni a Gwarcheidwaid pan fydd plentyn neu unigolyn ifanc yn cael diagnosis o gyflwr sbectrwm awtistiaeth.

Os gwneir diagnosis o Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth, cynigir proffil ar gyfer y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Gall hwn fod yn broffil y gellir ei ddiweddarau ar-lein, sy'n opsiwn ar wefan ASDinfoales.

Ar ôl cwblhau'r asesiad, bydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn cael ei ryddhau'n ôl i'r atgyfeiriwr.

Mae darpariaeth o rywffaint o gymorth teuluol yn y cyfnod ôl-ddiagnostig yn cael ei ddatblygu.

2.2 **Gwasanaethau Cenedlaethol/Rhanbarthol** (*Francis Rees*)

Rhaglenni Dysgu gydag Awtistiaeth

Yn dilyn llwyddiant y rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth ar gyfer yr ysgol gynradd, lanswyd y rhaglen ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar yn Sir Benfro, gyda'r sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr yn parhau er mwyn hyrwyddo'r rhaglen. Mae Dysgu gydag Awtistiaeth – y Blynyddoedd Cynnar, ar gael i bob ysgol brif ffrwd, darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar, lleoliadau blynyddoedd cynnar a gynhelir a nas cynhelir, i'w defnyddio.

Rydym hefyd wedi lansio adnodd ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n cynnwys gwrs sy'n dangos i gyfoedion rai o'r heriau y mae pobl ifanc gydag ASA yn eu hwynebu yn ystod diwrnod ysgol arferol. Mae'r wers wedi'i chynllunio i ysgogi trafodaethau a chynyddu dealltwriaeth.

Mae gan godi ymwybyddiaeth am awtistiaeth y gallu i newid bywydau, mae'n annog dealltwriaeth, goddefgarwch a pharch, fel y gall pawb, gyda'i gilydd, gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r holl adnoddau a arianwyd gan Lywodraeth Cymru ac a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gael yn rhad ac am ddim gan y tîm Datblygu ASA, ac mae manylion i'w gweld ar ein gwefan

<https://www.asdinfowales.co.uk/professionals>

Gweithio gydag Awtistiaeth

Rydym wedi darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Awtistiaeth i Workways Sir Benfro a hefyd cynrychiolwyr o Norman Industries. Mae gennym ystod o adnoddau ar-lein i gyflogwyr helpu i gefnogi pobl awtistig i gael gwaith a'u cefnogi yn ystod eu gwaith. I bobl awtistig sy'n chwilio am waith, mae gennym ystod o adnoddau i'w cefnogi wrth iddynt chwilio am waith, gan gynnwys geiriadur medrau, adnodd ar gyfer magu Sgiliau Personol, adnodd ar gyfer creu CV, adnodd chwilio am waith ac ap Gweithio gydag Awtistiaeth. Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan

<https://www.asdinfowales.co.uk/employment>

Cefnogi Plant ac Oedolion i Allu Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Chwaraeon a Hamdden

Gan weithio gyda Swyddog Anabledau Chwaraeon Sir Benfro rydym wedi darparu hyfforddiant hyfforddi'r hyfforddwr er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith y rhai sy'n cefnogi plant ac oedolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn Sir Benfro. Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan <https://www.asdinfowales.co.uk/leisure-staff>

Weli di fi

Rydym wedi lansio Ymgyrch Genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o Awtistiaeth mewn trefi a chymunedau ledled Cymru. Ein nod unwaith eto yw cynyddu dealltwriaeth a goddefgarwch a derbyn pobl awtistig.

Gan weithio ar y cyd â thîm plismona'r gymdogaeth, mae Aberdaugleddau wedi ennill gwobr Enfys gyda nifer o siopau, bwytai, caffis, siopau trin gwallt, ac ati, Theatr y Torch a'r Phoenix Bowl yn derbyn ein hadnoddau Weli Di Fi. Rydym nawr yn gweithio ar y wobwr Efydd a hefyd yn symud i Hwlfordd i gychwyn y cynllun gyda Pembrokeshire People First. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan

<https://www.asdinfowales.co.uk/can-you-see-me>

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI)

Mae'r GAI ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei lansio ddiwedd yr haf / dechrau'r hydref 2018. Bydd y gwasanaeth yn darparu asesiad diagnostig ar gyfer oedolion awtistig (weithiau ar y cyd â gwasanaethau eraill), cymorth a chynghor i blant, oedolion a'r rhai sy'n eu cefnogi. Bydd y GAI yn cefnogi rhieni a gofalwyr trwy ddarparu cynghor a chymorth, cyfeirio at wasanaethau eraill a

chyflwyno rhaglenni ar gyfer pobl ifanc. Bydd hyn yn cynnwys cymorth a chynghor i helpu i reoli anawsterau megis:

- problemau cwsg
- problemau gyda bwyta
- ymddygiad heriol
- pryder
- datblygu Sgiliau Cymdeithasol

I oedolion, byddwch yn gallu cael cymorth gan y gwasanaeth heb fod angen i rywun arall eich cyfeirio. Bydd staff yn y gwasanaeth yn gallu rhoi cymorth a chynghor i chi mewn perthynas â:

- pryder
- sgiliau cymdeithasol, manteisio ar weithgareddau hamdden
- datblygu eich sgiliau byw bob dydd
- manteisio ar wasanaethau eraill megis gofal iechyd neu gymorth cyflogaeth neu
- anawsterau eraill y gallech fod yn eu profi

Ar gyfer oedolion sy'n credu efallai bod ganddynt awtistiaeth, ond nad oes ganddynt ddiagnosis, bydd y GAI yn gallu cynnig asesiad ar gyfer awtistiaeth os yw'r unigolyn awtistig yn dymuno hyn.

I'r rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth (lle mae angen gwasanaethau eraill megis cymorth iechyd meddwl), bydd staff o'r GAI yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau eu bod yn gallu darparu cymorth "awtistiaeth gyfeillgar".

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan -

<https://www.asdinfoales.co.uk/integrated-autism-service>

2.3 **Addysg** (Claire Bullock)

Mae'r pecyn cymorth adnabod yn gynnar ar gyfer plant sydd ag Anhwylder Sbectrum Awtistiaeth bellach wedi'i ymgorffori'n dda. Mae canlyniadau Prawf Sgrinio Cyfathrebu'r Feithrinfa (Sgiliau Cyfathrebu Ymarferol) ar gyfer disgyblion Meithrin1 a Meithrin 2 bellach yn cael eu cofnodi gan ysgolion ar G2 fel llyfr marcio ymyriad blynyddoedd cynnar. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae cyfarfodydd rhwydwaith Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar wedi eu sefydlu ar gyfer clystyrau o ysgolion. Cynhelir y cyfarfodydd ar ôl pob hanner tymor, ar ôl cwblhau pob cyfnod sgrinio. Mae'r rhain yn gyfle i Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar drafod disgyblion unigol a cheisio cyngor gan athrawon arbenigol a therapyddion Iaith a Lleferydd. Darperir adnoddau ychwanegol a syniadau gweithgareddau ac fe rennir arfer da.

Mae hyfforddiant ar gyfer Sgiliau Cyfathrebu Ymarferol a Llythrennedd Ymarferol yn parhau i gael ei gynnig bob tymor i ymarferwyr sy'n newydd i'r blynyddoedd cynnar.

Bellach mae gan feithrinfeydd nas cynhelir adnoddau i rieni eu benthyca sy'n cefnogi'r gweithgareddau a argymhellir yn y pecyn rhieni. Defnyddiwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynnyddoedd Cynnar i brynu teganau a llyfrau. Gwnaed cardiau atgoffa wedi'u codio â lliw sy'n cysylltu â phob strategaeth gyfathrebu.

Dengys gwerthusiad o ddata cynnydd yr ymyriadau hyn mewn meithrinfeydd, bod dros 50% o'r plant wedi symud i fyny un lefel sgrinio gyfan neu i'r lefel "dim pryder" yn dilyn ymyriad Sgiliau Cyfathrebu Ymarferol.

Mae sefydlu model darparu dan arweiniad Ymgynghoriad Seicoleg Addysgol (Y Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Ysgol), yn sicrhau cyfarfod tymhorol i bob ysgol drafod ymyriad cynnar, o ran anghenion sy'n dod i'r amlwg, ac i nodi cymorth arbenigol i ddisgyblion sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae tîm ymgynghori'r gwasanaethau arbenigol a'r therapyddion iaith a lleferydd yn mynychu'r cyfarfodydd ac yn defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar atebion er mwyn datrys problemau ar y cyd ar draws yr holl asiantaethau.

Ar gyfer y plant hynny a nodir gan TAPPAS fel rhai sydd angen cymorth ar gyfer eu hanghenion cymdeithasol a chyfathrebu, mae fforwm cyfathrebu bellach ar waith sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol iechyd ac addysgol i ddyrannu cymorth a darpariaeth.

Mae datblygu tîm cefnogi allgymorth ysgol, bellach yn cynnwys 2 athro ymgynghorol a 2 weithiwr cymorth allgymorth, ac yn y broses o integreiddio gyda grŵp ehangach o athrawon ymgynghorol, gan ddarparu cynnig cymorth cynnar ar gyfer y tîm cyfathrebu ac anawsterau dysgu penodol. Bydd hyn yn cynnwys:

Tri Chynorthwydd Therapi Iaith a Lleferydd, penodiad therapydd galwedigaethol i ddarparu cymorth a chyngor i ysgolion a theuluoedd ynglŷn ag anghenion synhwyraidd.

Mae'r rhaglen beilot lwyddiannus i gefnogi plant BI 6 sy'n symud i Ysgol Penfro, yn cael ei hailadrodd gyda theulu ysgolion Aberdaugleddau.

Mae 80% o ysgolion bellach wedi derbyn rhaglen hyfforddiant Dysgu gydag Awtistiaeth i ysgolion cynradd. Mae fersiwn ar gyfer lleoliadau'r Blynnyddoedd Cynnar ac ysgolion uwchradd hefyd yn cael ei gyflwyno i staff ysgolion y Gwanwyn hwn. Mae **8** lle ychwanegol yn Ysgol Arbennig Portfield.

Mae agor Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) Johnston wedi creu 24 lle ar gyfer plant ag ASA. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at greu canolfan gymorth i blant sydd ag ADY ac ASA yn Ysgol Uwchradd Aberdaugleddau.

Datblygwyd casgliad o adnoddau ymyriadau ar gyfer ysgolion a Chanolfannau Adnoddau Dysgu ac fe'i treialir yn nheulu ysgolion Bro Gwaun a Phreseli.

Mae llyfrgell benthyca llyfrau ac adnoddau mwy costus yn cael ei dreialu yng nghlwstwr Bro Gwaun a Preseli.

Gweithredu rhaglen datblygu proffesiynol ar gyfer Cynorthwyr Cymorth Dysgu, gydag un modiwl yn ymwneud â chefnogi plant sydd ag ASA. Hyfforddiant wedi'i greu'n benodol ar gais ysgolion i ddiwallu anghenion unigol ac i helpu i feithrin capasiti ar draws amrywiaeth o leoliadau.

Mae gwefan i ddarparu gwybodaeth am awtistiaeth a strategaethau cymorth yn cael ei datblygu a'i lansio ddiwedd tymor yr haf.

Yn dilyn cyfnod peilota llwyddiannus, mae Therapydd Cerdd yn cael ei ariannu i weithio gyda phlant yn ysgol Aberdaugleddau er mwyn cefnogi ymgysylltiad, pryder a phresenoldeb.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn cydweithio'n agos â Choleg Sir Benfro i sicrhau bod trefniadau pontio effeithiol yn eu lle ar gyfer pob disgybl sy'n mynychu'r Coleg. Mae gwybodaeth allweddol am anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl (CDU) yn cael ei rhannu'n llawn gyda'r Coleg.

2.4 **Gwasanaethau Cefnogi Rhieni (Addysg)** (*Leonie Rayner*)

Partneriaeth Rhieni - Gall rhieni/gofalwyr hunangyfeirio am gyngor a chymorth drwy'r ddesg ddyletswydd 5 diwrnod yr wythnos, neu drwy e-bost. Mae'r gwasanaeth yn cynnig yr wybodaeth leol berthnasol, ddiweddaraf i rieni / gofalwyr ynglŷn â hawliau a chyfrifoldebau, mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, gan gynnwys wyneb yn wyneb, taflenni gwybodaeth, ar y ffôn, ar y cyfryngau cymdeithasol a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae'r gwasanaeth Partneriaeth Rhieni 'Mewnol' yn caniatáu i swyddogion weithio'n agos gyda gweithwyr addysg proffesiynol er mwyn sicrhau canlyniadau amserol i deuluoedd.

Gweithdai rhieni – Mae'r gwasanaeth yn cynnig gweithdai amrywiol i rieni /gofalwyr eu mynychu, gan gynnwys 'Symud Ymlaen Ar ôl Diagnosis', a 'Diwygio ADY – y datblygiadau diweddaraf'. Rydym hefyd yn hwyluso gweithdai gan weithwyr iechyd proffesiynol fel 'Deall gofynion iaith' a 'Goroesi gwyliau'r ysgol'. Cynhelir y rhain ar draws gwahanol ardaloedd yn y sir.

Grwpiau Rhwydweithio i Rieni – mae'r rhain yn gyfarfodydd coffi anffurfiol ar gyfer rhieni/gofalwyr a hwylusir gan Swyddog Cymorth Cynhwysiant. Nod y cyfarfodydd yw rhoi cyfle i rwydweithio gyda rhieni/gofalwyr eraill sydd â phlant gydag anghenion ychwanegol gan gynnwys Cyflwr Sbectrum Awtistiaeth, a rhannu profiadau dros goffi. Gall rhieni/gofalwyr hefyd gael cyngor a gwybodaeth bellach gan y Swyddogion Cymorth Cynhwysiant sy'n

hwyluso'r cyfarfodydd hyn. Cynhelir y cyfarfodydd rhwydweithio hyn i rieni mewn 8 ardal ar draws y sir.

TAPPAS 3 - Cynhelir y cyfarfodydd bob tymor ym mhob ardal ac maent yn darparu ystod o gyngor a chymorth i deuluoedd ynglyn ag anghenion dysgu ychwanegol. Bob tymor, bydd y Tîm Cymorth Cynhwysiant yn tynnu sylw at themâu neu ddatblygiadau allweddol sy'n digwydd yn lleol neu'n genedlaethol. Cynigir sesiynau 1:1 i rieni/gofalwyr gyda gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys Athrawon Ymgynghorol, Therapydd Galwedigaethol Pediatrig, Seicolegydd Addysgol a Swyddog Partneriaeth Rhieni.

Mae Clwb Trinity yn darparu clybiau dydd Sadwrn, wedi'u targedu, ar draws y sir i blant 5-18 oed sydd â diagnosis, neu sydd ar y rhestr aros ar gyfer asesiad. Mae'r rhain yn gyfle i rieni/gofalwyr adael eu plentyn sydd ag anghenion ychwanegol am 2 awr.

Mae'r clwb ar ôl ysgol i blant 5-16 oed (Tots 2 Teens) yn rhedeg 3 diwrnod yr wythnos ac mae'n agored i bob plentyn a allai elwa ohono. Yn ogystal â chynnig gofal plant i rieni, mae'n gyfle i blant/pobl ifanc ryngweithio â'u cyfoedion.

Cynllun Chwarae'r Gwyliau - Mae hwn yn gynllun gwyliau, wedi'i dargedu, ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol gan gynnwys Cyflwr Sbectwm Awtistiaeth, sy'n cynnig darpariaeth gofal plant am brisiau rhesymol i rieni/gofalwyr.

Cynhadledd Flynyddol i Rienï – bob blwyddyn gwahoddir pob rhiant/gofalwr i gynhadledd, sy'n cynnwys Prif Siaradwyr o fewn maes penodol o anghenion ychwanegol; gweithdai i rieni a chyfle i gyfarfod â gweithwyr proffesiynol. Mae hyn yn rhoi cyfle i rieni leisio'u barn yn ogystal â chael y newyddion diweddaraf gan wasanaethau.

Dulliau cyfathrebu. Bellach mae Cylchlythyr i rieni/gofalwyr ddwywaith y flwyddyn, sy'n cynnwys diweddariadau gan wasanaethau, yn ogystal â'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter, sy'n cynnwys diweddariadau a digwyddiadau'n rheolaidd. Mae'r Wefan sydd newydd ei datblygu yn cynnig trosolwg i rieni o wasanaethau yn ogystal â thafenni gwybodaeth penodol ar gyfer meysydd thema cyffredin wedi'u hatodi.

2.5 Coleg Sir Penfro

2.6 **Gofal Cymdeithasol** (*Jonathan Griffiths/Jason Bennett*)

2.7 **Pembrokeshire People First**

Ers datblygu cynllun gweithredu strategol ASA yn Sir Benfro yn 2008, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran sicrhau gwelliannau i fywydau plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys:

Don't Leave Me Out - 2015/18

Darpariaeth eiriolaeth benodol ar gyfer pobl sy'n diffinio fel awtistig 'gweithrediad uwch'.

Eiriolaeth cyfoedion; grŵp hunan-eiriolaeth; hyfforddiant sgiliau cymdeithasol/cyfathrebu; lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, cynhwysiant yn y gymuned ehangach trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau celf a llesiant ledled Sir Benfro; gwneud ffilmiau

Mae'r grŵp hwn bellach wedi dod i ben, er bydd un sesiwn olaf lle bydd aelodau'n cael cyfle i gwblhau'r llyfrau lloffion y buont yn eu creu.

Hyfforddiant - o 2016

Hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth a ddarperir gan oedolion gyda Chyflwr Sbectwm Awtistiaeth i wasanaethau statudol, darparwyr cymorth a sefydliadau eraill y Trydydd Sector fel Cyngor Ar Bopeth.

ASC US – 2018 / 2021

Mae'r grŵp llywio wedi esblygu o'r Grŵp Don't Leave Me Out a bydd yn helpu i gyflwyno a datblygu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth a Derby'n Awtistiaeth. Yn ogystal, bydd cyfleoedd i ddatblygu Eiriolaeth Cymheiriad a chyfleoedd cymdeithasol unigryw. Mae grŵp bach o ymgynghorwyr sy'n oedolion awtistig gweithrediad uchel, sydd ag amrywiaeth o brofiadau ac arbenigedd, ochr yn ochr â hwylusydd o Pembrokeshire People First, wedi bod yn datblygu'r cwrs byr Ymwybyddiaeth Eirioli er mwyn cyflwyno cwrs hyfforddi hirach sy'n cwmpasu nid yn unig ymwybyddiaeth, ond derbyn hefyd. Mae cynllun y cwrs bron wedi'i gwblhau ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar rymuso unigolion i gymryd yr awenau wrth adrodd eu straeon a siarad am eu profiadau o fod yn awtistig. Mae'n cwmpasu meysydd megis rhywedd, addysg, gwaith, cyflogaeth ac adnoddau a chyingor defnyddiol ac ymarferol i ymarferwyr a chyfranogwyr yn y cwrs. Yn ei ddrafft terfynol, mae nawr angen cyflwyno'r cwrs i'r grŵp rhanddeiliaid ehangach am ddeunydd a gwybodaeth ychwanegol. Rydym wrthi'n derbyn enwebiadau ar gyfer y cwrs hwn ac yn bwriadu'i gyflwyno dros yr wyth mis nesaf. Gan ein bod wedi bod yn archwilio cynnwys y cwrs, rydym eisoes yn gweld cyfleoedd i ehangu ar feysydd penodol a'r posibilrwydd o ddatblygu cyrsiau pellach yn y dyfodol.

Mae pob pwynt a gynhwyswyd yn y cyfarfod blaenorol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda rhai datblygiadau ychwanegol:

Hyfforddiant

Mae Pembrokeshire People First yn darparu hyfforddiant rheolaidd ar ymwybyddiaeth o anabledau dysgu, ac mae Cyflwr Sbectwm Awtistiaeth

yn cael ei gynnwys fel rhan o'r diwrnod hwnnw, bydd hyn yn parhau.

Prosiect Young Tudor – o 2016

Lle diogel a phleserus i bobl ifanc (3-18) sydd ag awtistiaeth.
Grŵp hunan-eiriolaeth; hyfforddiant sgiliau cymdeithasol/cyfathrebu;
gwneud ffilmiau; sgiliau byw.

Strategol

Mae Pembrokeshire People First yn parhau i chwarae rhan bwysig a gweithredol mewn ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol, gan sicrhau bod llais Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn cael ei gynnwys. Mae ymgysylltiad gweithredol yn y Mesur Awtistiaeth yn parhau i fod yn ddarn pwysig o waith.

Eiriolaeth

Darparu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol arbenigol, gyda chynnydd yn yr atgyfeiriadau a dderbynnir gan bobl Awtistig. Bellach mae oddeutu 30% o'n partneriaid eiriolaeth yn diffinio fel awtistig.

Cymuned

Cyfranogiad yn y prosiect Weli Di Fi
Datblygiad ffilm Take 5 gyda SpaceToCreate.

Arall

Mae pob gweithgaredd Pembrokeshire People First yn agored i, ac yn hygyrch i bobl sydd â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth.

3. Cynllun Gweithredu Lleol (2018/20) Anhwylder Sbectwm Awtistiaeth

Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol hwn yn cynnwys 9 maes blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu. Mae'r rhain wedi'u seilio ar yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym ac i adeiladu ar beth rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn

3.1 Adnabod ac Ymyriad Cynnar – Plant (*Pip Large/Claire Bullock*)

Beth ydym am ei gyflawni	Beth fyddwn ni'n ei wneud	Sut fyddwn ni'n gwybod	Pwy sy'n cymryd rhan
<p>Plant sydd ag awtistiaeth a/neu nodweddion awtistiaeth yn cael eu hadnabod yn gynnar</p>	<p>Sefydlu'r adnodd Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar, Sgiliau Cyfathrebu Ymarferol, ym mhob Lleoliad Blynyddoedd Cynnar.</p> <p>Mae pob lleoliad yn cael hyfforddiant i ddefnyddio'r adnodd a mynd i gyfarfodydd rhwydwaith bob mis i rannu arfer da a phlant sy'n peri pryder.</p> <p>Gwella'r modd o olrhain disgyblion sy'n cael eu hadnabod drwy sgrinio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae disgyblion a gaiff eu hadnabod drwy'r adnodd sgrinio'n gwneud cynnydd addas; yn cael eu monitro gan y SALT cyswllt ac mae cymorth a chyngor dilynol yn cael eu rhoi yn eu lle • Mae cynllun pontio i'r ysgol yn cael ei greu a'i weithredu gan y gwasanaeth ymgynghorol ar gyfer Cyflwr Sbectwm Awtistiaeth. • Mae gweithdai rhieni'n rhoi cymorth a hyfforddiant i rieni 	<p>Tîm Therapi Iaith a Lleferydd</p> <p>Athro Arbenigol ar gyfer Cyflwr Sbectwm Awtistiaeth</p> <p>Gwasanaethau Partneriaeth Rhieni</p> <p>Sefydliad Cyflwr Sbectwm Awtistiaeth Trydydd Sector</p>
Swyddog Arweiniol	Claire Bullock		

3.2 Asesu a Diagnosis – plant (Dr Simmonds/Bethan Edwards)

Beth ydym am ei gyflawni	Beth fyddwn ni'n ei wneud	Sut fyddwn ni'n gwybod	Pwy sy'n cymryd rhan
Swyddog Arweiniol	Dr Martin Simmonds		

3.3 Asesu a Diagnosis – oedolion (Dr Helen Matthews/Sarah Dudley)

Beth ydym am ei gyflawni	Beth fyddwn ni'n ei wneud	Sut fyddwn ni'n gwybod	Pwy sy'n cymryd rhan
Asesiad prydlon yn defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth	<p>Parhau â'r gwasanaeth Diagnostig ASA arbenigol o fewn y bwrdd iechyd.</p> <p>Gweithredu'r gwasanaeth GAI o fewn BIPHDd</p>	<p>Ni fydd unigolion yn aros mwy na 26 wythnos am asesiad</p> <p>Archwiliad o Gydydffurfiad NICE, ystadegau'r gwasanaeth, gofyniad gorfodol LIC</p> <p>Adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth</p>	<p>Gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion (trefniant lletya ar gyfer y gwasanaeth diagnostig presennol a'r Gwasanaeth GAI newydd)</p> <p>Bwrdd Strategaeth GAI</p>
Swyddog Arweiniol	Sara Rees, Pennaeth Gwasanaeth, Iechyd Meddwl Oedolion		

3.4 Addysg (Sue Evans/Claire Bullock)

Beth ydym am ei gyflawni	Beth fyddwn ni'n ei wneud	Sut fyddwn ni'n gwybod	Pwy sy'n cymryd rhan
<p>Bydd anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu nodi a'u bodloni mewn ystod o leoliadau addas.</p>	<p>Adnabod yn gynnar i'w flaenoriaethu. Continwrm o wahanol fathau o ddarpariaeth i fod ar gael i ddiwallu anghenion unigol:</p> <ul style="list-style-type: none"> -Gwaith 1:1 wedi'i greu'n benodol ar gyfer yr unigolyn gan weithiwr cefnogi ASA -Ymyriadau Grŵp Bach - Lleoliadau ysgol arbenigol -Cwricwla amgen <p>Sicrhau bod ystod o hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth ar gael i'r staff i gyd.</p> <p>Bydd staff yn cael y cyfle i drafod pryderon trwy gyfarfodydd grŵp ymgynghori aml-asiantaeth megis y model TAPPAS.</p>	<p>Bydd disgyblion yn cael eu hadnabod a'u lleoli/cefnogi'n briodol.</p> <p>Bydd cynnydd yn cael ei fonitro</p> <p>Cyfarfodydd adolygu rheolaidd i fonitro cynnydd a sicrhau bod y ddarpariaeth gyfredol yn parhau'n briodol</p> <p>Cyfarfodydd TAPPAS 1 a 3 i nodi cynnydd neu fel arall Adroddiadau gan weithwyr proffesiynol eraill/allgymorth ASA</p> <p>Monitro llwyddiant cynyddu capasiti trwy nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau arbenigol.</p>	<p>Tîm Cyfathrebu (Athro arbenigol a gweithwyr allgymorth)</p> <p>Therapydd Iaith a Lleferydd</p> <p>Partneriaeth Rhieni</p> <p>Staff Ysgol</p>
<p>Swyddog Arweiniol</p>	<p>Nichola Jones</p>		

3.5 Gwasanaethau Cymorth i blant a theuluoedd (*Diane Beacroft*)

Beth ydym am ei gyflawni	Beth fyddwn ni'n ei wneud	Sut fyddwn ni'n gwybod	Pwy sy'n cymryd rhan
Swyddog Arweiniol	Nichola Jones		

3.6 Pontio i fyd oedolion (*Jason Bennett*)

Beth ydym am ei gyflawni	Beth fyddwn ni'n ei wneud	Sut fyddwn ni'n gwybod	Pwy sy'n cymryd rhan
Swyddog Arweiniol	Jason Bennett		

3.7 Mynediad at gymorth a gwasanaethau i oedolion (*Jason Bennett*)

Beth ydym am ei gyflawni	Beth fyddwn ni'n ei wneud	Sut fyddwn ni'n gwybod	Pwy sy'n cymryd rhan
Adnoddau a datblygiadau strategol			
Swyddog Arweiniol	Jason Bennett		

3.8 Cefnogaeth i rieni a gofalwyr (Leoni Rayner/Sam Stone/Nikki Williams)

Beth ydym am ei gyflawni	Beth fyddwn ni'n ei wneud	Sut fyddwn ni'n gwybod	Pwy sy'n cymryd rhan
Rhieni a gofalwyr Plant a Phobl Ifanc gydag ASA yn cael cynnig gwybodaeth a chymorth i lywio ac i rymuso eu rhianta.	Darparu a hwyluso gweithdai, sesiynau gwybodaeth ac ymgynghoriadau 1:1 gydag arbenigwyr. Hwyluso cyfleoedd i ddatblygu rhwydweithiau cyfoedion â'i gilydd. Darparu llinell ffôn ddyletswydd ar gyfer cyngor a chefnogaeth.	Trwy ymgynghoriadau parhaus gyda rhieni a gofalwyr. Trwy brosesau gwerthuso digidol a heb fod yn ddigidol. Llai o atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol.	Gwasanethau Partneriaeth Rhieni. Athrawon ymgynghorol. Seicolegwyr Addysgol. Gweithwyr iechyd proffesiynol.
Hwyluso cyfleoedd i rieni a gofalwyr gyfarfod er mwyn datblygu rhwydweithiau a chefnogaeth cyfoedion â'i gilydd	Grwpiau rhwydwaith rhieni, cyfarfodydd clwstrwr tymhorol i ysgolion, Swyddogion Cefnogi Cynhwysiant wedi'u lleoli'n ddaearyddol.	Dulliau gwerthuso ac adborth. Mesur ffigurau ymgysylltu.	Gwasanethau Partneriaeth Rhieni. Swyddogion Cefnogi Cynhwysiant. Teuluoedd
Rhieni a gofalwyr i gael cyfleoedd i gael seibiant oddi wrth gyfrifoldebau gofalu. Cyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol i blant sydd ag ASA.	Cynnig ystod o wasanaethau cymorth cynnar, gan gynnwys clybiau dydd Sadwrn, cynlluniau gofal ar ôl ysgol ac amser gwyliau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol gan gynnwys ASA. Dim angen iddynt gael eu cyfeirio – gall y rhieni eu hunain drefnu lle i'w plant	Presenoldeb. Adborth gan rieni drwy gyfryngau cymdeithasol a chyfleoedd ymgynghori. Adborth gan blant a phobl ifanc.	Cydlynnydd cymorth cynnar. Gwasanethau Partneriaeth Rhieni. Staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Rhieni

Gwella'r cyfathrebu ar gyfer teuluoedd a gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth ol ac ysgolion.	Cyflwyno'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Gwefannau – mewnol a rhanbarthol Cynhadledd flynyddol i rieni. Cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn. Diweddariadau digidol ac annigidol rheolaidd ar gyfer y rhai sydd ar y rhestri postio.	Data wedi'i godi oddi ar y cyfryngau cymdeithasol. Adborth gan bawb sy'n cyfranogi. Dulliau gwerthuso.	Gwasanethau Partneriaeth Rhieni. Teuluoedd Gweithiwr prosiect cyfathrebu
Swyddog Arweiniol	Leonie Rayner/Gofal Cymdeithasol		

3.9 Codi ymwybyddiaeth ymhlith gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol (Francis Rees)

Beth ydym am ei gyflawni	Beth fyddwn ni'n ei wneud	Sut fyddwn ni'n gwybod	Pwy sy'n cymryd rhan
Hyrwyddo'r broses o dderbyn a deall drwy godi ymwybyddiaeth ymhlith gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn cynnwys Addysg, lechyd a Gofal Cymdeithasol, darparwyr Hamdden a Chyflogwyr	Ymestyn ein hadnoddau a'n rhaglenni, a gyflenwir heb unrhyw gostau ychwanegol gan eu bod yn cael eu hariannu gan LIC, drwy'r sir. Darparu sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr ar gyfer y Blynnyddoedd Cynnar ac ysgolion Uwchradd drwy gydol 2018	Ymestyn yr ymgyrch 'Weli di fi' i Hwlfordd. Aberdaugleddau'n symud i wobwr Efydd pan fydd ysgolion yn y gymuned wedi cwblhau'r wobwr Dysgu Gydag Awtistiaeth. Cynnydd yn y nifer sy'n cwblhau'r cynllun ardystiad ysgol gyfan ar gyfer ysgolion Cynradd. Mae data blynnyddol (sy'n cofnodi ystadegau ar bob rhaglen ASDinfowales, gan gynnwys gweithio gydag awtistiaeth a	Swyddog Rhanbarthol – Tîm Datblygu ASA Cenedlaethol Athro Arbenigol ar gyfer Cyflwr Sbectrwem Awtistiaeth Seicoleg Addysgol Gwasanaeth ND (dosbarthu pecynnau Weli Di Fi ar adeg y diagnosis) Tîm Plismona Cymdogaeth Aberdaugleddau Gwirfoddolwyr sy'n

		<p>mynediad at gyfleusterau Hamdden) i'w anfon ymlaen at Arweinydd ASA yn Sir Benfro i fonitro cynnydd.</p>	<p>rhieni a gofalwyr.</p> <p>Tim Plismona Cymdogaeth Aberdaugleddau</p> <p>Gwirfoddolwyr sy'n rhieni a gofalwyr.</p> <p>Pembrokeshire People First</p> <p>Swyddog Anableddau Chwaraeon</p> <p>Timau Chwaraeon a Chanolfannau Hamdden</p> <p>Grwpiau gwirfoddol a thrydydd sector</p>
Swyddog Arweiniol	Swyddog Rhanbarthol		

3. Llywodraethiant

Rôl Grŵp Llywio Anhwylderau Sbectwm Awtistig Sir Benfro

Bydd trefniadau llywodraethiant effeithiol yn hanfodol os bydd y camau gweithredu o fewn y cynllun hwn am gael eu cyflawni. Bydd Grŵp Rhanddeiliaid ASA Sir Benfro yn rhan hanfodol o'r trefniadau hyn. Bydd y grŵp hwn yn chwarae rôl arweiniol wrth gefnogi gweithrediad yr amcanion yng Nghynllun Gweithredu Strategol ASA Cymru ar draws ardal yr awdurdod. Felly, y corf hwn fydd yn atebol am wella gwasanaethau ASA ledled Sir Benfro. Fel cam gweithredu allweddol yn y cynllun hwn, bydd y grŵp yn sefydlu ac yn cynnal nifer o is-grwpiau tasg-benodol, a fydd yn arwain ar ddatblygu a gweithredu prosiectau a mentrau sydd wedi'u hanelu at wella gwasanaethau ASA yn lleol. Yn hollbwysig, bydd y grŵp yn hyrwyddo ac yn cefnogi dull traws-asiantaethol cytunedig ar gyfer cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau i bobl ag ASA. Fel rhan allweddol o'i rôl, bydd yn adrodd i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ynglŷn â chynnydd wrth weithredu'r cynllun hwn.

